monmouthshire
sir fynwy

Monmouthshire County Council
County Hall, The Rhadyr, Usk,
NP15 1GA

Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brunbuga, NP15 1GA

Tel/Ffôn: 01633 644429
E-Mail/Ebost:
planningpolicy@monmouthshire.gov.uk
Web/Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk
Our Ref/Ein Cyf: RLDP Examination
Your Ref:/Eich Cyf:
Date/Dyddiad: 30th April 2026

Annwyl Ms de-Courcey a Ms MacFarlane,

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDO) Sir Fynwy – Cwestiynau Dechreuol**

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynghylch cwestiynau dechreuol yr Arolygwyr, paratowyd gwybodaeth ychwanegol i ymwneud â mater effaith y datblygiad arfaethedig yn y RLDP ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) afonol yng nghyswllt rhyddhau ffosfforws ac fe'i atodir er gwybodaeth i chi.

I ymdrin â'r materion a godwyd, mae'r Papur Sefyllfa Ffosffadau a ddiweddarwyd (Ebrill 2026) yn nodi'r canlynol:

- Yr her amgylcheddol sylweddol a achosir gan faterion ansawdd dŵr yn nalgylchoedd SAC Afon Gwy ac Afon Wysg a throsolwg o'r dull gweithredu a'r gwaith a wnaed hyd yma gan Gyngor Sir Fynwy a'i bartneriaid wrth drin y materion, yn cynnwys trosolwg o'r strategaethau cyfredol a'r dyfodol a chamau gweithredu Cyngor Sir Fynwy a Byrddau Rheoli Maethion perthnasol.
- Gwybodaeth ar y cynnydd posibl mewn llwythi maethion yn nalgylchoedd SAC Afon Wysg ac Afon Gwy  o weithredu'r RLDP.
- Ymchwiliad pellach os gallai cyfraniadau ffosfforws o'r datblygiadau a gynigir o fewn y RLDP drwy ddŵr gwastraff brwnt a gaiff ei drin yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Trefynwy achosi dirywiad i'r Afon Gwy Isaf yn ôl i gyflwr methu, a goblygiadau hyn ar gyfyngiadau niwtraliaeth a maethion a'r angen am unrhyw liniaru. Er na ofynnodd yr arolygwyr am y gwaith hwn, cafodd y Cyngor ei gynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried effaith cynigion y RLDP ar gyflwr y SAC.
- Ystyried dyfarniad diweddar CG Fry & Sons Ltd v SSHCLG [2025] UKSC 35 (yng nghyswllt y gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ryddhau amodau cynllunio) ar gyflenwi safleoedd ymrwymedig a dynodi unrhyw dybiaethau a wnaed yng nghyswllt lwfansau ar hap.
- Ystyried os oes angen rhoi ystyriaeth i gyfraniadau maethion o ddatblygiadau amhreswyl.
- Adroddiad Opsiynau Lliniaru Strategol sy'n ymchwilio datrysiadau lliniaru strategol ar gyfer cynigon datblygu'r RLDP yn nalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Gwy.
- Cynllun Gweithredu Lliniaru Maethion sy'n nodi'r llwybrau lliniaru a gofynion cysylltiedig sy'n sicrhau y gellir gweithredu a sicrhau lliniaru maethion pan fo angen, gan sicrhau y medrir cyflawni'r RLDP yn unol â'i gerrig milltir.
- Trosolwg lefel uchel o oblygiadau hyfywedd y mesurau lliniaru posibl.
- Adolygiad o bolisïau'r RLDP Adnau, gan ddynodi unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen yng ngoleuni'r materion a godwyd. Caiff diweddariadau i'r Cynllun Cyflenwi Seilwaith hefyd eu nodi. Caiff y diweddariadau hyn eu rhestru mewn rhestr o newidiadau a gynigir i'r RLDP.
- Diweddaru'r Atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn dilyn trafodaethau cadarnhaol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, anfonwyd Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd at Cyfoeth Naturiol Cymru i'w adolygu. Cytunwyd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi adborth i'r Cyngor erbyn dydd Gwener 15 Mai 2026. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn anfon ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i PEDW cyn gynted ag y daw i law.

Gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr uchod a/neu'r Papur Sefyllfa a atodir.

Yn gywir iawn,

Andrew Jones
Pennaeth Cynllunio